Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30409 ISBN 978-1-4734-8211-1

## Rhagair y Gweinidog

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu dull cenedlaethol a chyhoeddi cynllun strategol ar gyfer pobl ag awtistiaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn llwyr ymrwymedig i wella bywydau pobl ag awtistiaeth ac i sicrhau bod eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'n bwysig cydnabod y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi ein cynllun gweithredu gwreiddiol yn 2008. Un o'r prif lwyddiannau yw codi proffil ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Mae yna amrywiaeth eang o wybodaeth ac adnoddau ar gael i helpu pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr, ac adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Rydym wedi penodi cydgysylltydd cenedlaethol hefyd a sicrhau bod yna swyddogion arweiniol lleol. Mae'r swyddogion hyn wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gweithio i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau a chymorth gwell ar gael ledled Cymru.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Strategol newydd mewn ymateb i'r hyn mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym hefyd wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i nodi rhai themâu blaenoriaeth a chamau gweithredu allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion ag awtistiaeth.

Mae'r Cynllun yn nodi beth rydym wedi'i gyflawni, yr hyn a ddywedwyd wrthym a'r hyn fyddwn ni'n ei wneud. Mae ganddo dri phrif faes blaenoriaeth:

- Codi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant;
- Asesu, diagnosis a chymorth ar ôl diagnosis;
- Diwallu anghenion cymorth.

Un o'r prif ddatblygiadau yw sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd. Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu timau arbenigol newydd ym mhob rhanbarth, gan ddarparu diagnosis i oedolion, cymorth yn y gymuned a chyngor a gwybodaeth i oedolion ag awtistiaeth ac i'w teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd yn cefnogi'r gwelliannau rydym yn eu cyflwyno i wasanaethau diagnosis, trin a chymorth plant drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Bydd targed amser aros 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf a datblygiad llwybr asesu safonol cenedlaethol i sicrhau darpariaeth gyson i bobl ifanc ag awtistiaeth ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

Rydym hefyd wedi defnyddio'n pwerau deddfwriaethol i sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn gallu cael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gofyn i awdurdodau lleol sefydlu a darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a chymorth priodol.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth ar gael i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardaloedd. Mae awtistiaeth wedi'i nodi fel un o'r prif feysydd blaenoriaeth a bydd angen i Fyrddau Partneriaeth adrodd ar gynnydd, yn cynnwys cynnydd ar ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.

Bydd cynllun cyflawni'n cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Strategol, sy'n nodi'r camau gweithredu penodol yn fanylach, yn cynnwys sut y byddant yn cael eu mesur a'u monitro. Bydd Grŵp Cynghori ar Weithredu yn cael ei sefydlu i fonitro'r gwaith o gyflawni a chynnydd. Bydd yr aelodau'n cynnwys pobl ag awtistiaeth, yn cynnwys plant, yn ogystal â'u teuluoedd a gofalwyr. Bydd y grŵp hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau statudol a'r trydydd sector.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Cynhelir gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol hefyd.

Rydym am weld gwahaniaeth gwirioneddol yn y gwasanaethau, y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl ag awtistiaeth. Rydym yn gwybod y bydd hi'n cymryd amser i gyflawni rhai o'n gwelliannau a'r camau gweithredu ond byddwn yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r rhaglen waith hon a byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu wendidau mewn darpariaeth. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r angen i gryfhau deddfwriaeth gyfredol neu'r angen i lunio deddfwriaeth benodol ar gyfer awtistiaeth.

Rebecca Evans

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cyhoeddus

## Diweddariad o’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig i Gymru

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod Un** | Cyflwyniad | 5 |

**Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu**

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod Dau** | Asesu a Diagnosis | 9 |
| **Pennod Tri** | Mynd i’r afael ag anghenion cymorth | 12 |
| **Pennod Pedwar** | Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant | 21 |
| **Pennod Pump** | Cyflawni’r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu | 25 |

**Atodiadau**

Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Atodiad un | Crynodeb o ganfyddiadau’r gwerthusiad o ganlyniadau’r Cynllun Gweithredu Strategol |

# PENNOD UN

## Cyflwyniad

1.1 Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Strategol newydd hwn mewn ymateb i'r hyn mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym hefyd wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i nodi rhai themâu blaenoriaeth a chamau gweithredu allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion ag awtistiaeth.

1.2 Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella bywydau pobl ag awtistiaeth ac i sicrhau bod eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn derbyn y cymorth sydd eu hangen arnynt. Rydym yn bwriadu cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod camau gweithredu'r Cynllun hwn yn cael eu cyflawni.

1.3 Nod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yw:

**Y bydd anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles ac i fyw bywydau llawn.**

1.4 Yn ogystal â'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Strategol hwn, rydym hefyd wedi defnyddio deddfwriaeth i wella'r gwasanaethau, y gofal a'r cymorth i bawb, yn cynnwys pobl awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys nifer o ofynion penodol, yn cynnwys y gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth ar gael i ddiwallu anghenion pobl yn eu hardaloedd. Mae awtistiaeth wedi'i nodi fel un o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau, gofal a chymorth a bydd angen i Fyrddau Partneriaeth adrodd ar gynnydd, yn cynnwys cynnydd ar ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.

1.5 Un o'r prif ddatblygiadau yw sefydlu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol newydd (rhagor o wybodaeth ym Mhennod 3). Gwasanaeth i blant ac oedolion yw hwn a bydd yn ategu'r gwaith a wneir ar gyfer plant a phobl ifanc drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (rhagor o wybodaeth ym Mhennod 2).

1.6 Bydd cynllun cyflawni'n cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Strategol, sy'n nodi'r camau gweithredu penodol yn fanylach, yn cynnwys sut y byddant yn cael eu mesur a'u monitro. Rydym am weld gwahaniaeth gwirioneddol yn y gwasanaethau, y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl ag awtistiaeth, felly bydd monitro cynnydd a chyflawniad yn agos yn hanfodol (rhagor o wybodaeth ym Mhennod 5).

1.7 Rydym yn gwybod y bydd hi'n cymryd amser i gyflawni rhai pethau ond byddwn yn monitro ac yn adolygu cynnydd, ac yn cymryd camau os oes bylchau yn y

gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r angen i lunio deddfwriaeth benodol ar gyfer awtistiaeth

1.8 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymdrin yn genedlaethol ag awtistiaeth, gan gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn 2008. Wrth ddatblygu diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys pobl ag awtistiaeth a'u teulu a'u gofalwyr. Rydym wedi gwrando ar eu hadborth ar beth sydd wedi gweithio'n dda a ble mae angen blaenoriaethu camau gweithredu yn y dyfodol i wella gwasanaethau a chymorth. Rydym wedi diweddaru'r Cynllun Gweithredu Strategol, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ogystal ag ymateb i'r gwerthusiad a'r ymgynghoriad. Nodwyd tri phrif faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Asesu a diagnosis
- Mynd i'r afael ag anghenion cymorth
- Codi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant

<u>Diffiniad o Awtistiaeth</u>

1.9 Byddwn yn parhau i ddefnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd[1] o awtistiaeth:

***"The term autistic spectrum disorders (ASD) is used to describe the group of pervasive developmental disorders characterised by qualitative abnormalities in reciprocal social interactions and in patterns of communication and by restricted, stereotyped, repetitive repertoire of interests and activities."***

Mae'r sbectrwm awtistig yn llydan iawn a gall effeithio ar bobl sydd ar bob lefel o allu deallusol. Er nad oes triniaeth ar gyfer ASD, mae cymorth ac ymyrraeth briodol yn gallu helpu unigolion i wireddu eu potensial. Mae'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer pobl sydd ym mhob rhan o'r sbectrwm ac yn cynnwys unigolion a all fod ag anabledd dysgu hefyd yn ogystal â'r rhai a gafodd ddiagnosis o Syndrom Asperger. Mae'n anodd iawn amcangyfrif nifer y bobl y mae ASD yn effeithio arnynt gan fod y canfyddiadau mewn astudiaethau'n amrywio. Yn ôl y dystiolaeth bresennol, mae anhwylderau ar y sbectrwm awtistig gan oddeutu 1%[2] neu fwy o'r boblogaeth gyfan. Felly, ar sail y data am Gymru o Gyfrifiad 2011[3] credir mai nifer y bobl ag awtistiaeth yng Nghymru yw tua 31,000, er ei bod yn bosibl bod nifer sylweddol o'r rhain heb gael diagnosis a heb ddod i sylw gwasanaethau.

1.10 Mae anabledd dysgu cydfodol gan nifer mawr o bobl sydd ag awtistiaeth. Gall eraill fod ag anhwylderau iechyd meddyliol a chorfforol. Mae ymchwil yn dangos mai'r anhwylderau mwyaf cyffredin yw anawsterau cysgu, problemau gastroberfeddol, clust ludiog, epilepsi, gorbryder, iselder, dyspracsia, dyslecsia, anhwylder obsesiynol cymhellol, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

[1] World Health Organisation (1993) The ICD -10 Classification of Mental and Behavioural Disorders: Diagnostic Criteria for Research
[2] Baird, G., Simonoff, E., Pickles, A. et al. Prevalence of disorders of the autism spectrum in a population cohort of children in South Thames: the Special Needs and Autism Project (SNAP). Lancet 2006; 368:(9531)210-5
[3] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) Cyfrifiad 2011, Ystadegau Allweddol ar gyfer Cymru 2011

Os bydd awtistiaeth yn bodoli ar y cyd ag anhwylder arall, gall hynny arwain at anawsterau cymhleth na fydd modd eu trin o bosibl drwy ddulliau traddodiadol. Felly bydd yn bwysig bod ymarferwyr yn nodi presenoldeb awtistiaeth yn ogystal â'r anhwylder cydfodol ac yn cynllunio'r gofal a'r cymorth yn unol â hynny er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yn y ffordd orau.

1.12 Ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn 2008 rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau gwelliannau i fywydau pobl ag awtistiaeth. Mae darparu'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf wedi arwain at ddatblygiadau gwirioneddol o ran bod yn ymwybodol o awtistiaeth a'i ddeall ac wedi gwella gallu pobl i gael gafael ar wasanaethau asesu a chymorth. Mae rhai o'n llwyddiannau allweddol yn cynnwys cynorthwyo pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr drwy:

- Ddatblygu amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau sydd ar gael ar ein gwefan ASD www.asdinfowales.co.uk, ac yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau i bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd neu ofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.
- Sefydlu seilwaith ASD ar draws awdurdodau lleol sydd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth dealltwriaeth o awtistiaeth.
- Cefnogi gwaith codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth o awtistiaeth ymysg grwpiau a gwasanaethau drwy hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfoWales.
- Gwella ymwybyddiaeth o awtistiaeth sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y plant oedran ysgol sy'n cael diagnosis.
- Gwella gallu oedolion i gael gwasanaethau cymorth adeg diagnosis ac ar ôl diagnosis.
- Gwella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ym myd addysg, a'i gwneud hi'n fwy tebygol i anghenion oedolion ifanc gael eu cydnabod.

1.13 Buom yn ymgynghori â phobl ag awtisitaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr a chyda Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD. Er mwyn deall effaith y camau rydym wedi'u cymryd ac i nodi unrhyw fylchau mewn cymorth, comisiynwyd gwerthusiad annibynnol gennym, a gyhoeddwyd ddechrau 2016 (mae dolen i'r adroddiad yn atodiad 1). Mae'r gwerthusiad ac adborth rhanddeiliaid wedi dangos ble mae angen i ni adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd hyd yn hyn a ble mae angen cymryd camau pellach. Mae hyn yn cynnwys asesu a rhoi diagnosis yn gynt, gwella cysondeb gwasanaethau ledled Cymru a chanolbwyntio ar gymorth i unigolion nad ydynt o bosibl yn gymwys am wasanaethau gofal cymdeithasol ond sydd ag anghenion cymorth sylweddol serch hynny.

1.14 Rydym wedi ystyried datblygiadau deddfwriaethol a pholisi newydd ledled Llywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu, yn enwedig ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Cynllun Cyflawni 2016-19

Mae dolenni i gael rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon yn atodiad **5**

1.15 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar awtistiaeth. Mae NICE yn gorff cydnabyddedig sy'n darparu cyngor a gwybodaeth awdurdodol ar faterion iechyd o bob math. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae NICE wedi llunio nifer o ddogfennau canllaw ar roi diagnosis o awtistiaeth a'i rheoli ymysg plant. Diben canllawiau NICE yw hybu a mesur gwelliannau mewn ansawdd a disgrifio nodweddion gwasanaethau da. Dylai byrddau iechyd ystyried y canllawiau wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth gan eu bod yn feincnod cydnabyddedig ar gyfer yr hyn y dylai gwasanaethau geisio ei ddarparu. Mae rhagor o wybodaeth am ganllawiau NICE ar awtistiaeth ar wefan www.asdinfowales.co.uk neu'n uniongyrchol ar wefan NICE yn http://pathways.nice.org.uk/pathways/autism. Yn ogystal â dogfennau cyngor technegol, mae NICE[4] wedi darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc i ategu'r canllawiau clinigol hyn.

1.16 Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn cynnwys tri phrif faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr hyn mae pobl wedi'i ddweud wrthym ac yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn. Un maes pwysig iawn yw ein bwriad i gyflwyno **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol i Gymru.** Dyma fydd y dull cenedlaethol cyntaf i fynd i'r afael ag anghenion nas diwallwyd a nodwyd gan bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr ac mae'n derbyn £6 miliwn o gefnogaeth ariannol. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn ym Mhennod 3. Byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni hefyd ac yn cyflwyno trefniadau llywodraethu a monitro cryf, yn cynnwys gwerthusiad annibynnol (gweler Atodiad 5).

[4] NICE (2011) Information about NICE Clinical Guidance 128

# PENNOD DAU

## ASESU A DIAGNOSIS

2.1 Mae'r gallu i gael gafael yn amserol ar wasanaethau asesu yn hanfodol i deuluoedd fel bod anghenion pob plentyn yn cael eu deall a gwasanaethau priodol yn cael eu cyflwyno i'w gefnogi i fyw bywyd llawn. Bydd diagnosis cynnar hefyd yn galluogi rhieni i ddeall anghenion eu plentyn ac i ofyn am gymorth priodol wrth ofalu. Nid yw rhai pobl ag awtistiaeth yn cael eu nodi nac yn cael diagnosis yn ystod eu plentyndod ond efallai y gellir eu helpu drwy eu helpu i gael gafael ar wasanaethau fel oedolion. Gall deall effaith awtistiaeth eu helpu i wneud synnwyr o'u bywydau ac i ofyn am gymorth priodol ar reoli effaith awtistiaeth ar eu bywydau bob dydd.

## Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

2.2 Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn nodi bylchau mewn gwasanaethau a chymorth diagnostig i oedolion. Er mwyn sicrhau gwelliannau, fe wnaethom gefnogi'r Rhwydwaith Cwnsela Cyn/Ôl-ddiagnosis i Oedolion, a oedd yn dod ag arbenigwyr y byrddau iechyd ynghyd i ddatblygu dull cyson o ddarparu gwasanaethau diagnostig i oedolion a darparu hyfforddiant diagnostig ychwanegol i wella gallu gweithwyr proffesiynol i gynnal asesiadau.

2.3 Yn 2015, mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid am ddarpariaeth gwasanaethau diagnostig yn enwedig i blant, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiagnosis ASD. Yn fuan ar ôl ei sefydlu cyhoeddwyd cyllid ychwanegol i gefnogi gwelliannau fel rhan o'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc i wella cynaliadwyedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae hyn yn cynnwys £2 miliwn yn flynyddol i wella gwasanaethau niwroddatblygiadol. Parhaodd y grŵp gorchwyl a gorffen i ganolbwyntio ar ddiagnosis oedolion yn unig gan gyhoeddi adroddiad gydag argymhellion i'w gweithredu erbyn mis Mawrth 2016.

2.4 Rydym wedi datblygu pecyn cymorth i glinigwyr i gefnogi gwaith gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal asesiad diagnostig o blant a phobl ifanc. Mae hwn yn seiliedig ar ganllawiau NICE ac ar gael ar wefan ASDinfoWales http://asdinfowales.co.uk/home. Er mwyn helpu'r broses o adnabod awtistiaeth rydym wedi gweithio gyda Chanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd hefyd i ddatblygu trosolwg o arwyddion awtistiaeth. Anfonwyd y posteri trosolwg hyn i bob meddygfa yng Nghymru.

2.5 Fel rhan o'r gwaith a wnaed gennym i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth rydym wedi datblygu adnoddau i deuluoedd a gofalwyr i ddarparu gwybodaeth iddynt ar ôl cael diagnosis. Mae'r adnoddau Tyfu gydag Awtistiaeth ar gael ar wefan ASDinfoWales ac yn cynnwys:

- Awtistiaeth: Canllaw i Rieni a Gofalwyr yn dilyn diagnosis
- Tyfu gydag Awtistiaeth – fideos ASD ar gyfer rhieni/gofalwyr
- Proffil Personol Plentyn
- Cardiau Lluniau Plant
- Taflenni Cyngor i rieni

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym

2.6 Dangosodd y gwerthusiad annibynnol o’r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf sut roedd mwy o ymwybyddiaeth wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yn y galw am asesiadau awtistiaeth, ac effaith hynny ar amseroedd aros yn y pen draw. Er bod cynnydd yn nifer yr oedolion oedd yn cael eu hasesu ac yn derbyn diagnosis nid oedd y ddarpariaeth yn gyson ledled Cymru. Roedd diffyg cymorth arbenigol ar ôl cael diagnosis hefyd.

2.7 Yn ystod yr ymgynghoriad ar y diweddariad o’r Cynllun Gweithredu, mynegodd rhieni mewn rhai ardaloedd eu bod yn cael anhawster i gael atgyfeiriad i wasanaethau asesu drwy’r ysgolion neu’r gwasanaethau iechyd sylfaenol. Roedd rhieni’n pryderu na allent gael atgyfeiriad i’w plentyn am asesiad diagnostig ac na allent gael y cymorth ychwanegol angenrheidiol i’r plentyn yn yr ysgol heb ddiagnosis ffurfiol.

## Yr hyn y byddwn ni’n ei wneud

2.8 Rydym eisoes yn gwella diagnosis i blant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth ac ADHD, drwy Raglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Rydym wedi datblygu llwybr asesu diagnostig niwroddatblygiadol y cytunwyd arno er mwyn sicrhau dull cyson ledled Cymru.

2.9 Bydd y llwybr yn helpu teuluoedd i ddeall sut mae’r broses atgyfeirio ac asesu’n gweithio, beth sy’n digwydd ym mhob cam a pha gymorth y gallant ei ddisgwyl pan wneir penderfyniad am ddiagnosis. Unwaith mae plentyn yn cael ei dderbyn am wasanaethau asesu ni ddylent aros mwy na 26 wythnos o’r atgyfeiriad i’r apwyntiad asesu cyntaf. Bydd yr amser mae’n ei gymryd i gael penderfyniad ar ddiagnosis yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y plentyn.

2.10 Mae’n bwysig bod teuluoedd yn derbyn cymorth gydol y broses. Er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth angenrheidiol, bydd gwasanaethau asesu plant a phobl ifanc yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol i sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael ac i helpu plant yn ystod y cyfnod pontio ac i wasanaethau oedolion.

2.11 Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol yn cynnig gwasanaethau asesu a diagnostig i oedolion sydd/sydd heb anabledd dysgu ysgafn. Bydd y gwasanaeth yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes o ran datblygu gallu gweithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaethau asesu arbenigol. Er mwyn sicrhau bod unigolion yn gwybod pa gymorth y gallant ei ddisgwyl byddwn yn sefydlu llwybr diagnosis ac asesu niwroddatblygiadol cenedlaethol i oedolion ac yn pennu amseroedd aros ar gyfer asesu wrth i’r gwasanaeth newydd gael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd y gwasanaeth yn cael ei weithredu yn unol â safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.

2.12 Byddwn yn adeiladu ar ein hadnoddau i gefnogi’r broses o adnabod awtistiaeth yn gynt drwy ddatblygu ffilm sy’n dangos arwyddion a symptomau ar y cyd ag ymchwilwyr.

2.13 Y **canlyniadau** rydym am eu cyflawni yw bod pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd dda ar awtistiaeth sy'n diwallu eu hanghenion.

**Byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol:**

- Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau asesu a diagnostig. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r llwybr asesu diagnostig safonol cenedlaethol i sicrhau cysondeb.

- Gwella'r amser o ran cael gafael ar wasanaethau; ar gyfer plant a phobl ifanc, targed amser aros o 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf.

- Sicrhau bod cynnydd ac amser asesu a diagnosis yn cael eu monitro'n barhaus. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn systemau cynllunio a rheoli perfformiad ffurfiol Byrddau Iechyd.

- Sicrhau gwelliannau i wasanaethau diagnostig oedolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys:

    - Datblygu model cenedlaethol a fydd yn cael ei weithredu ledled Cymru.

    - Monitro ac adrodd ar gynnydd yn barhaus yn erbyn y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar y cynnydd.

## PENNOD TRI

## MYND I'R AFAEL AG ANGHENION CYMORTH

3.1 Bydd gan blant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u gofalwyr anghenion cymorth gwahanol yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae canllawiau NICE [5] 'Autism in adults: diagnosis and management (CG142)', yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau:

*A significant proportion of adults with autism across the whole autistic spectrum experience social and economic exclusion. The condition is often overlooked by healthcare, education and social care professionals, which creates barriers to accessing the support and services they need to live independently.*

3.2 Mae adborth gan randdeiliaid wedi nodi tri phrif faes yn gyson lle mae yna fylchau mewn gwasanaethau ar draws yr ystod oedran. Rydym yn cymryd camau gweithredu ym mhob un o'r meysydd hyn, sef:

A - Trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.
B - Cymorth ar gyfer cyflogaeth.
C - Iechyd a gofal cymdeithasol.

Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol – Addysg

### Yr hyn a ddywedwyd wrthym

3.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir ei bod yn bwriadu trawsnewid y systemau presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) i helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys cymorth addysgol i blant ag awtistiaeth ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

3.4 Mae teuluoedd wedi dweud bod y system bresennol yn aneffeithlon, biwrocrataidd a chostus ac nad yw'n canolbwyntio ar y plentyn nac yn ystyriol o ddefnyddwyr. Weithiau mae anghenion yn cael eu nodi'n hwyr ac nid yw ymyriadau'n cael eu cynllunio na'u gweithredu'n brydlon nac effeithiol.

3.5 Mae teuluoedd yn dweud eu bod yn gorfod brwydro ym mhob cam o'r broses i gael y cymorth priodol i'w plentyn ac nad ydynt yn gwybod at bwy i droi am gyngor a gwybodaeth.

### Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

3.6 Byddwn yn cyflwyno system newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o 0-25 oed. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc ag awtistiaeth ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Bydd y newidiadau'n cael eu nodi

[5] NICE (2013) Autism: recognition, referral, diagnosis and management of adults on the autism spectrum. [NICE clinical guideline 142].

mewn deddfwriaeth – yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru), y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2016.

Bydd y Bil yn cyflwyno system newydd:

- sydd ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed – gan sicrhau hawliau cyfartal a threfniadau symud gwell rhwng lleoliadau;
- sydd ag un cynllun statudol – y cynllun datblygu unigol;
- sy’n blaenoriaethu dyheadau uchel a gwella canlyniadau, gan ganolbwyntio ar gael y plentyn neu’r person ifanc i gyflawni ei botensial yn llawn;
- sy’n darparu proses symlach a llai cynhennus, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr yn ganolog ac yn cael eu diwallu’n barhaus;
- sy’n creu rolau statudol newydd ym meysydd iechyd ac addysg i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu;
- sy’n canolbwyntio ar ddatrys anghydfod yn gynt, gydag achosion o anghydfod yn cael eu datrys ar y lefel fwyaf lleol posibl;
- sy’n cyflwyno hawliau apelio clir a chyson lle na ellir datrys anghydfod ar lefel leol;
- sy’n seiliedig ar god sydd wedi’i gryfhau, gyda gofynion gorfodol a chanllawiau statudol i gefnogi’r ddeddfwriaeth sylfaenol.

3.7 Mae’r Bil yn elfen fach o ddigwyddiadau ehangach i’r system gymorth i ddysgwyr sydd ag ADY. Bydd hyn yn gwella’r broses ar gyfer adnabod anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac ymyrryd yn effeithiol yn unol â’u hanghenion, gan sicrhau ar yr un pryd fod eu hanghenion cael eu diwallu o hyd gydol eu cyfnod mewn addysg.

3.8 Byddwn hefyd yn buddsoddi yn y gweithlu i sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol i gefnogi plant a phobl ifanc ag AAA, sy’n cynnwys awtistiaeth ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig, a’r hyder i ddefnyddio’r sgiliau hynny. Mae’r gwaith i ddatblygu’r gallu a’r hyder hwn wedi dechrau fel rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgu proffesiynol.

3.9 Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymarferwyr addysg ar dair lefel – datblygu sgiliau craidd ar gyfer y gweithlu cyffredinol; datblygu sgiliau uwch ar gyfer y Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd – a fydd yn gweithio mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach – a datblygu sgiliau arbenigol.

3.10 Ym mis Mawrth 2016, lansiwyd y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ar gyfer ysgolion cynradd, sy’n mabwysiadu dull ysgol gyfan o gefnogi disgyblion ag awtistiaeth gan ddarparu amrywiaeth eang o adnoddau i weithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr a phobl ag awtistiaeth yn cynnwys gwefan a chyfleoedd hyfforddi arbenigol. Byddwn yn datblygu adnoddau tebyg ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac ysgolion uwchradd.

Cyflogaeth

3.11  Mae’r cyfraddau cyflogaeth ymysg oedolion sydd ag ASD yn is o lawer na’r rheini ar gyfer y boblogaeth gyffredinol ac mae nifer o resymau am hyn, a all effeithio ar allu unigolyn i ddod o hyd i waith a’i gadw. Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn cydnabod bod nifer mawr o oedolion mwy abl sydd ag awtistiaeth angen cymorth i ymdopi â gorbryder ac iselder, ond nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol a’i bod yn bosibl bod nifer mawr ohonynt heb gael diagnosis ffurfiol o ASD.

## Yr hyn rydym wedi’i gyflawni

3.12  Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle, rhwng 2010 a 2015 cefnogodd Llywodraeth Cymru rôl y Cennad Cyflogaeth Awtistiaeth. Datblygwyd cysylltiadau rhagorol â Chanolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru, gan ddarparu cyngor arbenigol i alluogi staff lleol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i helpu pobl ag awtistiaeth i gael gwaith. Roedd rôl y Cennad Cyflogaeth yn llwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle gyda chyflogwyr a sefydliadau yn darparu cymorth cyflogaeth. Ymunodd llawer o sefydliadau â’n ‘siarter cadarnhaol am weithio gydag awtistiaeth’. Drwy weithio gyda’r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD byddwn yn parhau i ddatblygu cyngor i gefnogi pobl ag awtistiaeth i ddod o hyd i waith a’i gadw ac i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i gyflogwyr.

3.13 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth cyflogaeth y gall pobl ifanc ac oedolion gymryd rhan ynddynt. Mae pobl ifanc ag awtistiaeth yn gymwys i gymryd rhan mewn cyfleoedd Dysgu Seiliedig ar Waith fel Hyfforddeiaethau a’r rhaglen Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru (Barod am Waith cyn hynny). Mae darparwyr yn gallu cael cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol i dalu am unrhyw gostau ychwanegol sy’n codi am wneud y ddarpariaeth dysgu’n hygyrch i ddysgwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol eraill.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym

3.14 Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn nodi bod gan gyflogaeth rôl bwysig o ran galluogi pobl ag awtistiaeth i fyw bywydau llawn. Drwy werthuso ac ymgynghori â rhanddeiliaid rydym yn deall bod diffyg cymorth cyflogaeth yn parhau i fod yn broblem fawr i oedolion ag awtistiaeth a bod yna ddiffyg cymorth arbenigol wedi’i deilwra i fodloni anghenion unigol. Dylai’r cymorth hwn ymestyn o chwilio am swyddi i helpu unigolion i gadw swydd.

## Yr hyn y byddwn ni’n ei wneud

3.15  Mae gwella cyflogadwyedd wedi’i nodi fel prif flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Cyflogadwyedd Pob Oed newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd gan raglenni sy’n cael eu hariannu gan arian Ewropeaidd gyfraniad allweddol i’w wneud – yn cynnwys y rhai sy’n canolbwyntio ar wella iechyd ac iechyd meddwl.

3.16 Rydym yn deall y bydd gan bobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth anghenion cymorth penodol i'w helpu i ddod o hyd i waith a'i gadw. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod rhaglenni cymorth cyflogaeth newydd a chyfredol yn gallu darparu'r gwasanaethau cymorth arbenigol angenrheidiol i bobl ag awtistiaeth.

3.17 Datblygwyd pecyn hyfforddi i sefydliadau sy'n darparu cymorth cyflogaeth prif ffrwd i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor ar sut y gall gweithwyr proffesiynol addasu eu harferion. Mae'r rhaglen 'Gweithio gydag Awtistiaeth' i'w gweld ar wefan **ASDinfoWales** ac yn cynnwys ffilm hyfforddi, cyflwyniad hyfforddi a chynllun ardystio. Mae yna amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r rhaglen hefyd i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith bob dydd gydag unigolion ag awtistiaeth. Byddwn yn annog staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth i gwblhau'r rhaglen hyfforddi fer hon. Byddwn yn datblygu adnoddau ychwanegol ar gyfer y cynllun hwn a fydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo manteision cyflogi pobl ag awtistiaeth a hyfforddi gweithwyr adnoddau dynol proffesiynol i gefnogi pobl ag awtistiaeth.

3.18 Rydym wedi gwrando ar adborth rhanddeiliaid ac wedi nodi gwaith ymchwil i ganlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ag awtistiaeth. Mae hyn wedi arwain at waith partneriaeth gyda'r Loteri Fawr i gynyddu cymorth cyflogaeth drwy ddarpariaeth wedi'i thargedu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â'r Loteri Fawr ar ail ran y rhaglen, Ar y Blaen 2, a fydd ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anabledd/anhawster dysgu neu ASD. Nod y rhaglen yw creu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc drwy ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogwyr. Bydd yn darparu'r cymorth dwys sydd ei angen ar y bobl ifanc hyn i gadw cyflogaeth barhaus ac ystyrlon. Dyfarnwyd un contract am hyd at £10 miliwn am brosiect pum mlynedd o weithgareddau a gychwynnodd yn haf 2016.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3.19 Sbectrwm yw awtistiaeth a gall unigolion fod ag anabledd dysgu cysylltiedig neu gyflyrau iechyd eraill. I'r bobl hynny ag anghenion cymhleth dylid darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yna nifer o bobl ag awtistiaeth, yn enwedig oedolion ag awtistiaeth uwch-weithredol, nad ydynt yn bodloni'r trothwyon cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ffurfiol. Ar adegau bydd gan yr unigolion hyn anghenion cymorth ychwanegol a allai beri i anawsterau droi'n argyfwng os na fyddant yn cael eu diwallu. Gall hyn arwain yn y pen draw at yr angen am ymyriadau dwys. Gall rhai oedolion ag awtistiaeth brofi gorbryder ac arwahanrwydd cymdeithasol, cael anawsterau mewn perthynas ag addysg ac wynebu problemau wrth ddod o hyd i gyflogaeth a'i chadw a'i chael yn anodd ffurfio a chadw perthnasoedd cymdeithasol a chyfeillgarwch.

3.20 Mae rhai pobl ag awtistiaeth a/neu anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth yn gallu cael gofal drwy wasanaethau gofal iechyd arbenigol. Gellir cael y rhain yn y GIG, mewn ysbytai a thrwy wasanaethau eraill a ddarperir gan y sector gofal iechyd annibynnol. Mewn rhai achosion, oherwydd natur arbenigol y gofal, ni fydd y lleoliadau'n rhai lleol. Mae'r byrddau iechyd a'r Tîm Comisiynu Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y lleoliadau'n briodol i bobl a'u bod yn rhoi gofal priodol. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cofrestru ac yn arolygu'r ysbytai hyn.

3.21 Mewn rhai achosion, bydd anableddau dysgu dwys gan bobl sydd ag ASD ac mae ymddygiad heriol yn achosi problemau iddynt. Gallant fod ag afiechyd y meddwl hefyd a all greu'r perygl o wneud newid difrifol iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. Os bydd hyn yn digwydd, gall fod yn angenrheidiol i feddyg neu ymarferydd a gymeradwywyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl argymell eu bod yn cael eu trin o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). Mae'r cod ymarfer ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar ac mae ar gael yma http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/816/mental%20health%20act%201983%20code%20of%20practice%20for%20wales.pdf

## Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

3.22 Mae pennod yng nghod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n ymwneud yn benodol â phobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Seiliwyd y bennod hon ar egwyddorion yr opsiynau lleiaf cyfyngol dros y cyfnod byrraf ac mae'n disgwyl i ddulliau cadarnhaol gael eu defnyddio i helpu pobl i reoli eu hymddygiad heriol. Mae argymhellion hefyd ar gyfer hyfforddi staff sy'n gweithio o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gyda phobl sydd ag ASD.

3.23 Bydd rhai unigolion ag awtistiaeth hefyd yn gymwys am wasanaethau gofal cymdeithasol ac mae darpariaeth gofal a chymorth yng Nghymru wedi'i thrawsnewid yn sgil gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru. Mae unigolion bellach yng nghanol y penderfyniadau am y gofal a'r cymorth a dderbyniant a'r canlyniadau llesiant maent am eu sicrhau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawl i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion fel y gallant dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau i ofalu. Mae hefyd yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol ynghyd â byrddau iechyd i gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth ac mae anabledd dysgu/awtistiaeth yn themâu craidd yn yr asesiad hwn. Fel rhan o'r Ddeddf rydym hefyd yn diweddaru data gwasanaethau cymdeithasol, bydd ein dull newydd yn cynnwys casglu gwybodaeth am nifer y bobl ag awtistiaeth sydd â chynlluniau gofal a chymorth.

3.24 Ni fydd llawer o unigolion ag awtistiaeth yn gymwys am wasanaethau gofal a chymorth ond bydd ganddynt anghenion cymorth. Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu yn 2015 i edrych ar amrywiaeth o wasanaethau awtistiaeth mewn gwahanol rannau o'r DU a oedd yn ceisio llenwi bylchau yn y ddarpariaeth gymorth. Edrychwyd ar gryfderau a gwendidau'r modelau presennol ac adolygwyd y gwahanol fodelau i ganfod a fyddent yn bodloni'r gwahanol fathau o anghenion am gymorth sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid. Ystyriwyd amrywiaeth o opsiynau cymorth i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau asesu ac atal a datblygwyd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol o hyn.

Rydym wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi ymarferwyr iechyd a gofal ag awtistiaeth, sydd ar gael ar wefan ASDinfoWales.
http://www.asdinfowales.co.uk/home

*Ymyriadau Eraill ar gyfer Teuluoedd a Gofalwyr*

3.25 Mae gwasanaethau cymorth ychwanegol o lawer math wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth i blant a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn targedu grwpiau oedran penodol ac yn diwallu anghenion gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf – ei phwrpas yw gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am Teuluoedd yn Gyntaf yn http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/families-first/?lang=cy
- Rhaglen Cymorth Cynnar – ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau cymorth i blant anabl ifanc wedi'u cydgysylltu'n well. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Plant yng Nghymru http://www.plantyngnghymru.org.uk/ein-gwaith/anabledd/cefnogi-cynnar/
- Dechrau'n Deg – mae'n targedu plant o dan bedair blwydd oed yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Cydgysylltydd Dechrau'n Deg yn eich ardal http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy
- Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn hyrwyddo cydweithio i fodloni anghenion rhai plant a theuluoedd sydd â phroblemau cymhleth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn http://gov.wales/topics/health/socialcare/working/ifst/ifsspublications/briefing/?skip=1&lang=cy

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym

3.26 Drwy'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf ceisiwyd mynd i'r afael â'r bylchau mewn cymorth i oedolion drwy sefydlu prosiectau Cymorth Monitro Cymunedol. Cadarnhaodd y gwerthusiad annibynnol o'r cynllun gweithredu bod yna angen parhaus am wasanaethau wedi'u targedu. Roedd yn dangos bylchau mewn gwasanaethau i oedolion a galw am gymorth ychwanegol gan unigolion nad ydynt yn gymwys am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol, tynnodd oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr sylw at ddiffyg cymorth ataliol hefyd, a phroblemau gyda sicrhau gwaith a'r angen am fwy o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion hyn.

## Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

3.27 Roedd y dystiolaeth a gafwyd o'r ymarfer cwmpasu, a gynhaliwyd yn 2015, yn dangos yn glir fod dull integredig yn gweithio'n dda ac y gallai'r dull hwn ddiwallu anghenion pobl ag awtistiaeth yng Nghymru. O 2016 bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol i Gymru **a chyllid o £6 miliwn yn gefn iddo.** Mae gwefan **ASDinfoWales** yn darparu'r wybodaeth

ddiweddaraf am sut mae'r Gwasanaeth yn datblygu ym mhob rhanbarth ledled Cymru. Yn gryno, bydd y gwasanaeth yn darparu'r canlynol:

I bawb:


- Cymorth, cyngor a hyfforddiant i deulu a gofalwyr plant, pobl ifanc ac oedolion.
- Cyngor, cymorth ac ymyriadau i bobl ag awtistiaeth i'w helpu yn eu bywydau bob dydd.
- Hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol eraill i'w helpu i ddeall anghenion pobl ag awtistiaeth pan fyddant yn darparu gofal a chymorth.
- Darpariaeth integredig o wasanaethau a chymorth ledled awdurdodau iechyd a lleol.
- Timau o weithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth yn y gymuned leol yn cynnwys gweithwyr seicoleg, therapi galwedigaethol, therapi iaith a lleferydd, nyrsio a gweithwyr cymorth o bob cwr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

I oedolion yn unig:

- Gwasanaethau diagnostig a chymorth ar ôl diagnosis (mae diagnosis ac asesiad i blant yn cael ei ddarparu drwy'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc)

3.28 Wrth roi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol ar waith, byddwn yn adeiladu ar sail gwasanaethau presennol drwy ddatblygu gallu proffesiynol a gwella sgiliau, er mwyn sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau asesu diagnostig a chymorth ar ôl diagnosis. Bydd y gwasanaethau newydd wedi'u seilio ar yr arferion da yng nghanllawiau NICE ac yn canolbwyntio ar weithio amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod pobl ag awtistiaeth yn cael gwasanaethau a chymorth cydgysylltiedig.

3.29 Dull gweithredu cenedlaethol fydd hwn sy'n sicrhau cysondeb a bod pobl ag awtistiaeth yn gallu cael gafael ar wasanaethau tebyg ym mhob rhan o Gymru, gan ystyried gwahaniaethau rhanbarthol neu leol. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn cael ei ddatblygu drwy bartneriaeth â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru: bydd hyn yn hyrwyddo cydweithio rhwng cyrff iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Bydd y gwasanaeth ar waith yn ardaloedd yr holl fyrddau iechyd erbyn 2019. Wrth i ni ddatblygu'r gwasanaeth a'i roi ar waith byddwn yn cynnwys pobl sydd ag awtistiaeth, i sicrhau bod y gwasanaethau'n bodloni anghenion a nodwyd. Byddwn yn cynnwys hyn fel rhan o'n gwerthusiad annibynnol o'r gwasanaeth hefyd.


Ynglŷn â Gwasanaeth Cyfun Awtistiaeth
Dyma nodweddion y Gwasanaeth Cyfun ar gyfer Awtistiaeth:
Ar gael i bobl o bob oed
Amryw broffesiynolion ym meysydd gofal iechyd a chymdeithasol megis seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd, nyrsys a gweithwyr cymorth
Cymorth ym mhob bro
Bydd y Gwasanaeth Cyfun ar gyfer Awtistiaeth yn cynnig:
Cymorth, cynghorion a hyfforddiant i rieni a chynhalwyr plant ac oedolion
Asesu diagnostig i oedolion
Cynghorion, cymorth a thriniaeth i oedolion ac arnyn nhw awtistiaeth
Hyfforddiant a chymorth i broffesiynolion eraill
www.ASDinfoWales.co.uk
WLGA·CLLC

3.30 Y canlyniad rydym am ei gyflawni yw bod plant, pobl ifanc ac oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyngor ac ataliol i ddiwallu angen sydd heb ei ddiwallu mewn addysg, cyflogaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol.

## Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

### A. Trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol

- Cyflwyno diwygiad deddfwriaethol i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ym mis Rhagfyr 2018 a monitro cynnydd.

- Parhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglen 'Dysgu gydag Awtistiaeth' i wella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn y sectorau addysg cynradd, uwchradd ac addysg bellach.

### B. Cymorth Cyflogaeth

- Gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o ddarparu rhaglen Ar y Blaen Dau i gefnogi cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu yn cynnwys ASD.

- Llywodraeth Cymru i gymryd camau i ddod yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth.

- Gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ac iddynt ddod yn amgylcheddau gwaith ystyriol o awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Hyrwyddo'r rhaglen Gweithio gydag Awtistiaeth ac annog sefydliadau i ymuno â'n siarter cadarnhaol am weithio gydag awtistiaeth.
  - Datblygu modiwl hyfforddiant Adnoddau Dynol newydd.

### C. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2016 dros gyfnod o dair blynedd ac yn cynnwys:
  - Gweithredu gwasanaeth asesu diagnostig safonol i oedolion.
  - Darparu cyngor a chymorth i bawb ag awtistiaeth, yn cynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr.
  - Datblygu pecynnau hyfforddi a chymorth pellach i weithwyr proffesiynol.

# PENNOD PEDWAR

## Codi ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

4.1 Mae'n hanfodol bod pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth o ansawdd a chanllawiau a chyngor arbenigol. Gall hyn amrywio o wybodaeth ymwybyddiaeth gychwynnol i gyngor ar atgyfeirio ac asesu ac yna cymorth ar ôl asesu, yn cynnwys ymyriadau. Mae adborth wedi dangos bod angen parhaus i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg amrywiaeth o grwpiau proffesiynol i sicrhau eu bod yn gallu addasu eu hymarfer i ddiwallu anghenion pobl ag awtistiaeth.

4.2 Llwyddodd y Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg teuluoedd a grwpiau a gwasanaethau proffesiynol. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy sefydlu seilwaith ar gyfer awtistiaeth ar draws awdurdodau lleol, a oedd yn cynnwys Swyddog Arweiniol lleol ar ASD ym mhob awdurdod a chreu grwpiau llywio lleol, gan ddarparu £40,000 y flwyddyn i bob awdurdod lleol i ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth. Trosglwyddwyd y grant hwn i Grant Cymorth Refeniw Awdurdodau Lleol, a chan fod y cyllid ar gael bob blwyddyn erbyn hyn, mae gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd o ran sut maent nhw'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau a chymorth awtistiaeth yn lleol.

## Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

4.3 Rydym wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth ac adnoddau ar awtistiaeth drwy waith y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fwy diweddar. Mae'r wybodaeth a'r adnoddau ar wefan ASDinfoWales. Mae'r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD a'r tîm yn:

- Darparu cyngor a chanllawiau arbenigol, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r diweddariad o'r cynllun gweithredu, yn cynnwys y gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol.

- Ymgynghori â rhanddeiliaid i gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau i ddiwallu anghenion a nodwyd.

- Darparu hyfforddiant a gwybodaeth i grwpiau proffesiynol allweddol i nodi arwyddion o awtistiaeth. Roedd y proffesiynau a gefnogwyd yn cynnwys meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, y rhai sy'n gweithio ym myd addysg, manwerthu a hamdden ac adrannau Adnoddau Dynol cyflogwyr.

- Cynnal y Fforwm ASD sy'n dod ag arweinwyr ASD lleol at ei gilydd i gydweithio a rhannu arferion da ledled Cymru.

- Cynnal gwefan ASDinfoWales i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau arbenigol am awtistiaeth.

4.4 Mae gwefan **ASDinfoWales** yn darparu gwybodaeth ragorol am yr adnoddau sydd gennym ar gyfer pobl ag awtistiaeth, eu rhieni a'u gofalwyr a grwpiau proffesiynol. Cafodd hyn ei gydnabod gan Gyngres Ryngwladol Ewropeaidd ddiweddaraf ar Awtistiaeth ac mae llawer o wledydd wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'n deunyddiau. Mae rhestr lawn o adnoddau yn atodiad saith, sy'n cynnwys:

- Canllawiau ac adnoddau i rieni a gofalwyr oedolion ag awtistiaeth.
- Adnoddau hyfforddi i staff proffesiynol.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gyfer y cyhoedd.
- Y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth i ysgolion a cholegau.
- Adduned 'Archarwr Awtistiaeth' ar gyfer plant.
- Adnoddau cyflogaeth ar gyfer unigolion sydd ag ASD.
- Adnoddau byw'n annibynnol i unigolion sydd ag awtistiaeth, Canllaw i Oedolion yn Dilyn Diagnosis.
- Dau luniwr proffil personol rhyngweithiol.
- Pecyn cymorth ar gyfer asesu diagnostig.
- Gwybodaeth i atgyfeirwyr, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am arwyddion awtistiaeth.
- Pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n darparu gwybodaeth am ddulliau seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys dolenni ac adnoddau i'w lawrlwytho.

Mae adnoddau ychwanegol yn parhau i gael eu hychwanegu i'r wefan ac mae gwledydd o bob cwr o'r byd wedi dangos diddordeb mewn addasu a defnyddio'r deunydd a ddatblygwyd gennym.

## Yr hyn a ddywedwyd wrthym

4.5 Roedd y gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn dangos llwyddiant mawr o ran codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg grwpiau proffesiynol a rhieni a gofalwyr. Mae cefnogaeth ar gyfer Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ASD a datblygiad gwefan ASDinfoWales wedi bod yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu ffynhonnell o gyngor arbenigol o ansawdd, y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ei lawrlwytho am ddim.

4.6 Wrth sgwrsio â grwpiau rhieni yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y diweddariad o'r cynllun gweithredu yn gynharach eleni gwelwyd bod llawer o rieni a gofalwyr yn bryderus am ddiffyg gwybodaeth a chanllawiau, yn enwedig ar ôl cael diagnosis. Nid oedd llawer ohonynt yn gwybod am wefan **ASDinfoWales** a'i chanllawiau pwrpasol. Roedd yr adborth hefyd yn sôn am yr angen i ehangu cwmpas y gwaith rydym yn ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg grwpiau

proffesiynol, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel ystyried sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn y maes cyfiawnder troseddol. Mae angen gwneud rhagor fel y gall pob gweithiwr proffesiynol adnabod arwyddion allweddol o awtistiaeth ac addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion.

## Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

4.7 Drwy Dîm Cenedlaethol ASD a gwefan **ASDinfoWales** rydym yn parhau i gasglu llyfrgell sylweddol o ddeunyddiau gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant sydd ar gael i bawb yn ddi-dâl. Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i adnabod bylchau mewn gwybodaeth a chyngor ac i fuddsoddi mewn rhagor o ddeunyddiau i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymysg grwpiau proffesiynol. Rydym yn datblygu ein rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth ymhellach gan baratoi adnoddau newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion uwchradd ac addysg bellach. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym meysydd gofal sylfaenol, iechyd meddwl a gwasanaethau hamdden, yn ogystal â chyflogwyr. Datblygwyd hyfforddiant ar gyfer adrannau Adnoddau Dynol yn ddiweddar hefyd a bydd hwn ar gael ar y wefan.

4.8 Rydym yn cydnabod bod nifer o adnoddau defnyddiol wedi'u datblygu gan ymarferwyr ledled Cymru a bydd y rhain yn cael eu rhannu ar wefan **ASDinfoWales** lle bo'n bosibl.

4.9 Y canlyniad rydym am ei gyflawni yw bod pobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion.

## Byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Sicrhau bod pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDinfoWales. Datblygu strategaeth gyfathrebu yn nodi camau gweithredu penodol erbyn diwedd Ionawr 2017.

- Parhau i ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer meysydd blaenoriaeth a nodwyd, i fod ar gael am ddim ar wefan **ASDinfoWales**. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol.

- Datblygu a darparu adnoddau a deunydd hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol ac eraill sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion ag awtistiaeth. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol.

- Cydweithio â sefydliadau eraill sy’n ymdrin â materion nad ydynt wedi’u datganoli i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys yr heddlu, y llysoedd a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr.

- Parhau i gefnogi’r Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar ASD ar gyfer darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid.

- Parhau i gefnogi’r Fforwm ASD er mwyn galluogi awdurdodau lleol i rannu dysgu ac arferion da.

## PENNOD PUMP

## Cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a chyfranogiad rhanddeiliaid

5.1 Rydym eisoes wedi cyflawni llawer gyda phartneriaid i weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf a'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD. Mae'r gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r ymgynghoriad wedi ein galluogi i asesu beth oedd wedi gweithio'n dda a lle gellid gwella gwasanaethau. Wrth ddatblygu'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol rydym wedi gwrando ar bobl a rhanddeiliaid ac wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Rydym wedi amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac wedi nodi'r meysydd lle byddwn yn cymryd camau i sicrhau rhagor o welliannau yn y cymorth a'r gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth a'u teulu a'u gofalwyr.

5.2 Mae pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr am weld y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol yn cael ei gyflawni mewn ffordd dryloyw. Nodwyd yn y gwerthusiad ei bod yn anodd asesu ei effaith am nad oedd ffyrdd clir o fesur canlyniadau ac am fod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd o weithredu'r seilwaith ASD rhwng awdurdodau lleol. Rydym yn gwybod hefyd y gall fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am nifer y bobl ag awtistiaeth sy'n derbyn cymorth neu'n ceisio cael gafael ar wasanaethau. O ganlyniad, byddwn yn gwneud trefniadau annibynnol ar gyfer gwerthuso'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Rydym hefyd yn diweddaru ein gwaith casglu data gwasanaethau cymdeithasol i gynnwys pobl ag awtistiaeth sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth.

5.3 Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos sut y mae'r diweddariad o'r strategaeth yn cael effaith, byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni a fydd yn nodi camau gweithredu a chanlyniadau i gyd-fynd â'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol. Rydym hefyd yn penodi Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD i fonitro'r camau cyflawni a darparu cyngor ac arweiniad i ni a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.

### Ymgysylltu â'r trydydd sector

5.4 Roedd y llwyddiant wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol cyntaf yn dibynnu ar waith mewn partneriaeth ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol. Rydym am weld y dull cydweithredol hwn yn parhau ac mae angen cydnabod rôl y sector gwirfoddol drwy sicrhau ei fod yn cael cyfleoedd i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol a bod yn gyfrifol am wireddu rhai o'r canlyniadau. Ar lefel strategol, bydd sefydliadau'r sector gwirfoddol wedi'u cynrychioli ar y Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gyllid a fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer prosiectau i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn cynnwys disgwyliad am gyflawni ar y cyd; y bydd sefydliadau gwirfoddol yn gallu gwneud ceisiadau am y cyllid sydd ar gael; ac y bydd y system ymgeisio'n agored a thryloyw.

**Ymgysylltu â phobl ar y sbectrwm awtistig a theuluoedd a gofalwyr**

5.5 Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymgysylltu a gawsom gyda phobl ar y sbectrwm awtistig a theuluoedd a gofalwyr wrth ddatblygu'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ac wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n parhau â'r dull hwn. Bydd y Grŵp Cynghori ar Weithredu ar ASD yn cynnwys pobl ag awtistiaeth a chynrychiolwyr o blith teulu a gofalwyr. Byddwn yn ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid drwy arolygon, y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau.

5.6 Y canlyniadau rydym am eu cyflawni yw bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol.

**Byddwn yn cymryd y camau canlynol:**

- Sefydlu grŵp cynghori ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni i fonitro cynnydd a'r gwaith o gyflawni camau gweithredu penodol. Bydd y grŵp hwn yn cael ei sefydlu cyn 1 Ebrill 2017.

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis.

- Sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Mae awtistiaeth wedi'i nodi fel un o'r prif feysydd blaenoriaeth a bydd angen i'r Byrddau adrodd ar gynnydd, a fydd yn cynnwys cynnydd ar ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.

- Casglu gwybodaeth am nifer y bobl ag awtistiaeth sydd â chynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith casglu data gwasanaethau cymdeithasol newydd o fis Ebrill 2017.

- Cynnal gwerthusiad annibynnol o'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.

- Monitro gweithrediad y gofynion deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac adolygu'r angen am ddeddfwriaeth bellach ar awtistiaeth.

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ASD | Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AAD | Anawsterau/Anableddau Dysgu |
| NICE | Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |

## Atodiad Un

## Adnoddau ar wefan ASDinfoWales. [www.asdinfowales.co.uk](http://www.asdinfowales.co.uk)

| Adnoddau ar gyfer: | Adnoddau a ddatblygwyd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Rhieni / gofalwyr plant ac oedolion | Awtistiaeth: canllaw i rieni a gofalwyr | O esbonio'r sbectrwm awtistig i straeon gan rieni, mae'r llawlyfrau hyn yn lle defnyddiol i gychwyn i rieni sydd newydd gael diagnosis |
| | Awtistiaeth: canllaw i ofalwyr oedolion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig | |
| | Ffilmiau i rieni sy'n gofalu | 5 ffilm sy'n esbonio sut mae awtistiaeth yn effeithio ar blant a sut gall rhieni helpu |
| | Taflenni cyngor | Cyngor ac awgrymiadau ar faterion cyffredin, o ymddygiad heriol i ddatblygu trefn gysgu |
| | Lluniwr proffil personol | Creu ac argraffu proffil personol o'r plentyn/oedolyn i helpu eraill i ddysgu beth yw'r ffordd orau o'u cefnogi |
| | Cyfeiriadur gwasanaethau | Dod o hyd i gymorth a gwasanaethau yn eich ardal |
| Adnoddau i gefnogi unigolion ag awtistiaeth | Awtistiaeth: canllaw i oedolion | O esbonio awtistiaeth, i gyngor ac awgrymiadau, mae'r canllaw hwn yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol |
| | App cynllunio | Defnyddiwch yr ap ar ddyfais android neu iOS i helpu i gynllunio a threfnu'r diwrnod a gosod nodiadau atgoffa am weithgareddau |
| | Waled oren | Defnyddiwch y waled oren i gefnogi mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus |
| Adnoddau i gefnogi unigolion ag awtistiaeth i | Lluniwr sgiliau personol | Creu ac argraffu rhestr bersonol o sgiliau |

| | | |
|---|---|---|
| ymgeisio am waith | | cyflogadwyedd gan ddefnyddio adnodd sy'n ystyriol o awtistiaeth |
| | Lluniwr CV | Datblygu a chadw CV personol gan ddefnyddio adnodd llunio CV sy'n ystyriol o awtistiaeth |
| | Ap gweithio gydag awtistiaeth | Cymharu sgiliau a dymuniadau personol gyda'r rhai mewn hysbysebion swyddi a pharatoi ar gyfer cyfweliadau gyda'n ap. |
| | Adnodd chwilio am waith | Defnyddio proses strwythuredig ar-lein i nodi opsiynau cyflogaeth addas ac ymgeisio am waith |
| | Cadarnhaol am weithio gydag awtistiaeth | Amrywiaeth o adnoddau i helpu cyflogwyr i ddeall manteision cyflogi unigolion ag awtistiaeth a sut i ddiwallu anghenion |
| Adnoddau ar gyfer y rhai sy'n cefnogi oedolion ag awtistiaeth i gael gwaith | E-ddysgu | Ffilm hyfforddi a Power Point yn amlinellu sut i gefnogi rhywun ag awtistiaeth i ymgeisio am waith |
| | Cynllun ardystio | Cwblhau cynllun ardystio 'Gweithio gydag Awtistiaeth' a derbyn tystysgrif bersonol ar gyfer eich ffeil DPP |
| Adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd | Cyflwyniad a chanllaw | Trosolwg ffilm o'n cynllun 'Dysgu gydag Awtistiaeth' a chanllaw ar gyfer holl staff yr ysgol |
| | Cynllun dysgu ac ardystio | Ffilmiau hyfforddi a chynlluniau ardystio i athrawon a staff cymorth dysgu |
| | Adnodd hunanwerthuso | Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn a gall helpu ysgolion i gynllunio a mesur cynnydd |
| | Archarwyr awtistiaeth | Llyfr digidol a chynllun siarter ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2, sy'n arwain at dystysgrif bersonol |

| | | |
|---|---|---|
| Adnoddau ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol Cefnogi oedolion a phlant ag awtistiaeth | Ffilm byw gydag awtistiaeth | Trosolwg o awtistiaeth ac awgrymiadau ar sut i gefnogi oedolion ar y sbectrwm |
| | Awtistiaeth: canllaw i ofalwyr (oedolion a phlant) | O esbonio awtistiaeth, i gyngor ac awgrymiadau, mae'r ddau ganllaw yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol |
| | Pecynnau cymorth i ymarferwyr | Cyngor ac adnoddau i'r rhai sy'n cefnogi oedolion ar y sbectrwm, yn amrywio o ymyriadau i reoli ymddygiad heriol |
| | Pecyn cymorth clinigwyr | Adnoddau i gefnogi'r broses asesu ddiagnostig, yn cynnwys gwybodaeth i atgyfeirwyr |
| | E-ddysgu | Modiwl e-ddysgu ar-lein am ddim sy'n darparu tystysgrif bersonol |

| Mater | Adnoddau a ddatblygwyd |
|---|---|
| Gwybodaeth am anghenion unigolion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig a theuluoedd | Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Haf 2015, Adroddiad a chrynodeb |
| | Adroddiad ar arolwg o oedolion ag ASD |
| | Awtistiaeth: Canllaw i Rieni a Gofalwyr |
| | Awtistiaeth: Canllaw i Oedolion ag ASD |
| | Awtistiaeth: Canllaw i Ofalwyr Oedolion ag ASD |
| | 6 ffilm cyngor i rieni a gofalwyr |
| | Ffilm Byw gydag Awtistiaeth |
| Asesiad diagnostig - Plant ac oedolion | Trafodaeth ar-lein a fforwm rhannu ymarfer |
| | Pecynnau cymorth i glinigwyr |
| | Pecynnau cymorth ac ymyriadau i ymarferwyr |
| | Gwybodaeth ar gyfer atgyfeirwyr |
| | Posteri hyrwyddo arwyddion a symptomau o anhwylderau'r sbectrwm awtistig |
| | Taflenni gwybodaeth i deuluoedd |
| | Siartiau llif llwybr |
| | Rhestri gwirio a chymhorthion cofio i glinigwyr |
| | Lluniwr proffil plentyn ar-lein |
| | Lluniwr proffil oedolyn ar-lein |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth well ymysg staff ysgolion cynradd | Awtistiaeth: Canllaw i Ysgolion Cynradd |
| | Ffilm hyfforddi - Penaethiaid a Chydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig |
| | Ffilm hyfforddi – Athrawon |
| | Ffilm hyfforddi – staff cymorth dysgu |
| | Cynllun ardystio – athro |

| | |
|---|---|
| | Cynllun ardystio – cynorthwy-ydd dysgu |
| | Cynllun ardystio – ysgol gyfan |
| | Adnodd hunanwerthuso Estyn |
| Gwybodaeth well ymysg cyfoedion a brodyr a chwiorydd | Llyfr Archarwyr Awtistiaeth |
| | Llyfr digidol Archarwyr Awtistiaeth |
| | Siarter a chynllun ardystio Archarwyr Awtistiaeth |
| Cymorth i weithwyr proffesiynol | Cyfeiriadur gwasanaethau ar-lein |
| | Cyfeiriadur hyfforddiant ar-lein |
| | Deunyddiau codi ymwybyddiaeth proffesiynol |
| Adnoddau ymarferol gwell | Cynlluniwr cardiau lluniau |
| | Lluniwr proffil plentyn ar-lein |
| | Diweddariadau Facebook / Twitter |
| | Cynllun Waled Oren |
| | Ap ffôn symudol cynlluniwr anhwylderau’r sbectrwm awtistig |
| Cymorth cyflogaeth gwell | Ffilm hyfforddiant gweithio gydag awtistiaeth i staff cyflogaeth |
| | Cynllun ardystio gweithio gydag awtistiaeth i staff cyflogaeth |
| | Lluniwr CV i unigolion ag ASD |
| | Llyfr gwaith proses gyflogaeth i unigolion ag ASD |
| | Lluniwr sgiliau i unigolion ag ASD |
| | Cyfeiriadur sgiliau |
| | App ffôn symudol gweithio gydag awtistiaeth |
| Gwybodaeth well ymysg gweithwyr anableddau dysgu ac iechyd meddwl proffesiynol | Adroddiad ar arolwg ymarferwyr iechyd meddwl |
| | Mesur Iechyd Meddwl – Adnoddu pennu nodau i unigolion ag ASD |
| | Dull hyfforddi hyfforddwyr |
| | E-ddysgu ar gyfer staff iechyd meddwl a gofal cymdeithasol |
| | Rhaglen hyfforddi Timau Iechyd Meddwl Cymunedol |
| | Lluniwr proffil rhyngweithiol i oedolion |
| Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a chyflogwyr | Cynllun ardystio ymwybodol o ASD |
| | Siarter cadarnhaol am weithio gydag awtistiaeth |
| | Taflenni cyngor i reolwyr a chydweithwyr |